

Cyfraith Iechyd a Diogelwch

Beth sydd angen i chi ei wybod



Mae hon yn fersiwn
we-gyfeillgar o'r daflen
gyfraith Gymraeg
ISBN 978 0 7176 6351 4,
cyhoeddwyd 04/09

Mae gan bob gweithiwr hawl sylfaenol i weithio mewn amgylchedd lle y rheolir risgiau i iechyd a diogelwch yn gywir. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn ymwneud ag atal rhywun rhag cael ei anafu yn y gwaith neu fynd yn sâl o ganlyniad i'r gwaith. Cyfrifoldeb eich cyflogwr yw iechyd a diogelwch, ond rhaid i chi helpu.

Beth mae'n rhaid i gyflogwyr ei wneud i chi

- 1 Penderfynu beth allai fod yn niweidiol i chi yn eich swydd a'r camau i'w cymryd i'w atal. Mae hyn yn rhan o'r asesiad risg.
- 2 Esbonio sut y gellir rheoli risgiau a dweud wrthy ch pwy sy'n gyfrifol am hyn, mewn ffordd sy'n ddealladwy.
- 3 Ymgynghori a gweithio gyda chi a'ch cynrychiolwyr iechyd a diogelwch i ddiogelu pawb rhag niwed yn y gweithle.
- 4 Rhoi'r hyfforddiant iechyd a diogelwch sydd ei angen arnoch i wneud eich swydd, yn rhad ac am ddim.
- 5 Darparu unrhyw gyfarpar a dillad diogelwch sydd eu hangen arnoch, yn rhad ac am ddim, a sicrhau y gofalir amdanynt.
- 6 Darparu toiledau, cyfleusterau ymolchi a dŵr yfed.
- 7 Darparu cyfleusterau cymorth cyntaf digonol.
- 8 Hysbysu ein Canolfan Cyswllt Digwyddiadau am unrhyw anafiadau, clefydau neu ddigwyddiadau peryglus yn y gwaith: **0845 300 9923**
- 9 Cael yswiriant rhag ofn i chi gael anaf yn y gwaith neu fynd yn sâl o ganlyniad iddo. Arddangos copi caled neu electronig o'r dystysgrif yswiriant gyfredol mewn lle amlwg.
- 10 Cydweithio â chyflogwyr a chontractwyr eraill sy'n rhannu'r gweithle neu sy'n darparu gweithwyr (fel gweithwyr asiantaeth), er mwyn diogelu iechyd a diogelwch pawb.

Beth sy'n rhaid i chi ei wneud

- 1 Dilyn yr hyfforddiant a gawsoch wrth ddefnyddio unrhyw eitemau gwaith a roddwyd i chi gan eich cyflogwr.
- 2 Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch chi eich hun ac eraill.
- 3 Cydweithredu â'ch cyflogwr ar faterion iechyd a diogelwch.
- 4 Rhoi gwybod i rywun (eich cyflogwr, goruchwylydd neu gynrychiolydd iechyd a diogelwch) os credwch fod gwaith neu ragofalon annigonol yn peryglu iechyd a diogelwch unrhyw un.

Os oes problem

- 1 Os ydych yn gofidio am iechyd a diogelwch yn eich gweithle, siaradwch â'ch cyflogwr, goruchwylydd, neu gynrychiolydd iechyd a diogelwch.
- 2 Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan am wybodaeth gyffredinol am iechyd a diogelwch yn y gwaith.
- 3 Os ydych yn dal i ofidio ar ôl siarad â'ch cyflogwr, ffoniwch ein Llinell Wybodaeth. Gallwn eich rhoi chi mewn cysylltiad â'r awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch lleol a'r Gwasanaeth Cyngori Meddygol ar Gyflogaeth. Does dim rhaid rhoi eich enw. Llinell Wybodaeth HSE: **0845 345 0055** Gwefan HSE: **www.hse.gov.uk**

Diogelwch tân

Cewch gyngor ar ddiogelwch tân gan y Gwasanaethau Tân ac Achub neu eich swyddog tân yn y gweithle.

Hawliau cyflogaeth

Cewch fwy o wybodaeth am hawliau cyflogaeth yn:
www.direct.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael i'w phrynu mewn pecynnau o 15 o HSE Books, ISBN 978 0 7176 6351 4. Gellir gweld fersiwn ar y we yn www.hse.gov.uk/pubns/welsh/law.pdf. Mae'r wybodaeth yn y daflen hon ar gael mewn fformatau eraill.

©[©] *Hawlfraint y Goron 2009* Dylid anfon ceisiadau i atgynhyrchu'r deunydd yn y cerdyn pced hwn i Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost i licensing@opsi.gov.uk